**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 21 Mai 2020 am 3.30 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd G Hopkins

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd M Adams
Y Cynghorydd P Jarman

### 121 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda: "Mae fy mhartner yn gweithio i Iechyd Cyhoeddus Cymru".

### 122 Cofnodion

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Chwefror a 20 Chwefror, 2020 yn rhai cywir.

**123 Ymateb y Cyngor i argyfwng COVID-19**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, oedd yn rhannu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'u cymryd yn rhan o'r ymateb i argyfwng cenedlaethol COVID 19; ynghyd â rhoi cyfle i drafod ailagor gwasanaethau yn y dyfodol, pan fydd cadw pellter cymdeithasol a hunan-ynysu yn rhan o fywyd bob dydd. Yn eu tro, aeth pob swyddog o'r Uwch Garfan Rheoli ati i rannu diweddariad cynhwysfawr mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi'i gyflawni yn ei faes gwasanaeth wrth ymateb i'r pandemig.

Manteisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant ar y cyfle i ddiolch i staff, sydd wedi bod yn arbennig wrth gefnogi'r bobl hynny yn RhCT sy'n agored i niwed ac sy'n parhau i weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod bod sefyllfa'r Cyngor wedi dod yn fwy sefydlog, ond mae wedi tynnu sylw at y pwysau sydd ar y Gwasanaethau i Blant yn sgil cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a'r pwysau posibl sy'n gysylltiedig â llacio'r Cyfyngiadau Symud, pan fydd nifer o staff yn hunan-ynysu neu'n cael eu gwarchod. O ran Cyfarpar Diogelu Personol a phrofion, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyfadran bod y Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth i'w holl ddarparwyr ac roedd y trefniadau'n gweithio'n dda ar hyn o bryd. Wrth gloi, roedd y Cyfarwyddwr Cyfadran yn falch o allu cyhoeddi bod y Cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd ym Maesyffynnon wedi agor yn ddiweddar er yr amgylchiadau presennol.

Manteisiodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant ar y cyfle i estyn diolch i holl Benaethiaid a staff ysgolion am weithio gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod anodd yma. Rhoddwyd gwybod bod cynnydd wedi bod yn nifer y dysgwyr sy'n agored i niwed sy'n mynd i'r Hybiau/Canolfannau. Cafodd Aelodau wybod bod 420 o blant wedi defnyddio'r Ddarpariaeth Gofal Plant Brys yn ystod yr wythnos flaenorol, ac roedd 120 ohonyn nhw'n ddysgwyr sy'n agored i niwed. Esboniodd y Cyfarwyddwr bod yr Hybiau/Canolfannau ar agor 7 niwrnod yr wythnos, a byddan nhw'n parhau i fod ar agor yn ystod gwyliau banc a gwyliau hanner tymor, er mwyn cwrdd â'r galw gan weithwyr hanfodol. Cyhoeddodd y Cyfarwyddwr y bydd 12 hwb ychwanegol yn agor ar 1 Mehefin 2020, o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw. Bydd cyfanswm o 25 hwb. O ran darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod pob un o'r 9300 o blant cymwys yn derbyn taliadau uniongyrchol. Yn ogystal â hynny, siaradodd y Cyfarwyddwr am wasanaethau Prydau yn y Gymuned ar gyfer yr henoed. Roedd hyn wedi arwain at 635 o bobl yn mwynhau prydau yn eu cartrefi bob dydd gyda 413 o brydau wedi'u rhewi yn cael eu dosbarthu bob wythnos i unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu gwarchod ac sydd ddim yn gallu coginio ar gyfer nhw'u hunain.

Siaradodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu am y trefniadau newydd mewn perthynas â'r priffyrdd wedi'u hailstrwythuro a'r rhaglen glanhau/cynnal a chadw, sydd wedi galluogi'r Cyngor i gynyddu'r lefel o wastraff ac ailgylchu sy'n cael ei chynhyrchu ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan barhau i ymateb i ôl-effeithiau'r llifogydd ym mis Chwefror. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i drafod y cymorth sydd ar gael i fusnesau, cafodd y cymorth yma ei amlinellu yn adran 'Ffyniant' yr adroddiad. Aeth ymlaen i bwysleisio mai diogelwch y cyhoedd yw'r flaenoriaeth, ond bod yna gyfle i fanteisio ar yr arwyddair 'siopa'n lleol' er mwyn i ragor o waith gweithgynhyrchu gael ei gynnal yn y DU ac yn lleol.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r

Gymuned wybod bod tua 11,000 o drigolion yn RhCT wedi'u cynnwys ar y rhestr gwarchod. Mae 1300 o'r bobl yma wedi cofrestru i dderbyn pecynnau bwyd Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â hynny, roedd cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu i drigolion trwy ganolfan dosbarthu bwyd y Cyngor a gwasanaeth Prydau yn y Gymuned y Cyngor. Manteisiodd y Cyfarwyddwr ar y cyfle i ganmol staff a gwirfoddolwyr y gymuned, sydd wedi helpu trigolion sydd angen cymorth. Boed hynny trwy gerdded cŵn, siopa bwyd neu gasglu presgripsiynau o'r fferyllfa. O ran olrhain cysylltiadau, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod nifer o garfanau'n cael eu sefydlu yn y rhanbarth er mwyn helpu gyda gwaith cefnogi'r fenter ac atal y feirws rhag lledaenu.

Aeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyllid a Digidol ymlaen i estyn diolch i'r Garfan TG a'r Garfan Digidol am eu hymateb cyflym trwy sicrhau bod gan dros 3000 o staff yr adnoddau digidol addas i weithio gartref yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn golygu bod rhan helaeth o waith swyddfa gefn y Cyngor wedi parhau i gael ei gyflawni. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod cymorth Treth y Cyngor wedi cael ei ddyrannu i 900 eiddo ychwanegol ers diwedd mis Mawrth, ynghyd â darpariaeth Prydau Ysgol Am Ddim i dros 400 o ddisgyblion ychwanegol a chymorth gwerth £38miliwn ar ffurf grantiau busnes i dros 3000 o fusnesau. Cafodd ei nodi mai effaith ariannol amcangyfrifedig y pandemig ar yr Awdurdod Lleol yw tua £4.5miliwn pob mis, ond bydd diweddariad manwl yn cael ei ddarparu yn ystod cyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol.

Rhannodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r newyddion diweddaraf mewn perthynas â chyfarfodydd rhithwyr ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor. Er mai dyma oedd y cyfarfod rhithwir ffurfiol cyntaf i gael ei gynnal, cafodd y Cabinet wybod bod cyfarfodydd anffurfiol wedi cael eu cynnal gydag Arweinwyr Grŵp, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, ynghyd â sesiwn gwybodaeth anffurfiol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. Bu pob un yn llwyddiant. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai'r bwriad oedd cynnal cyfarfod rhithwir ffurfiol cyntaf y Pwyllgor Cynllunio ar 4 Mehefin 2020 gan ddefnyddio rhaglen Zoom, a byddai cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor Craffu yn dilyn. Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth bod Aelodau'n cefnogi'r dull cynyddol yma, gan ei fod yn cynnig cyfle i brofi'r rhaglen.

Daeth y Cyfarwyddwr â'i gyflwyniad i ben trwy nodi bod gwersi wedi cael eu dysgu yn ystod y misoedd diwethaf a bod y Cyngor yn ceisio barn ei staff er mwyn llywio trafodaethau mewn perthynas â gwasanaethau a threfniadau gwaith y Cyngor yn y dyfodol.

Manteisiodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor ar y cyfle i estyn diolch i staff ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ac roedd hi'n falch o nodi bod y dull cynyddol o gyflwyno cyfarfodydd rhithwir wedi cael ei groesawu gan Aelodau Etholedig a'i bod hi'n hyderus wrth symud ymlaen.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai wedi estyn diolch i swyddogion am gefnogi busnesau ar draws RhCT yn ystod cyfnod heriol. Holodd am y mesurau sydd wedi cael eu sefydlu wrth baratoi at agor canol trefi yn y dyfodol. Cafodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod cynllun wedi cael ei ddatblygu i sicrhau y bydd nifer cynyddol o siopwyr yn cael ymweld â chanol trefi gan gydymffurfio â'r mesurau cadw pellter cymdeithasol, bydd canllawiau ar gael yn y canol trefi; a bydd meinciau'n cael eu symud/rhwystro er mwyn atal pobl rhag ymgynnull.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a

Gwasanaethau Treftadaeth yn falch o nodi y bydd Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned y Cyngor yn ailagor y diwrnod canlynol, ynghyd â dau safle dros dro. Gofynnodd pa fesurau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod staff y Cyngor yn ddiogel yn y safleoedd yma. Cafodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod gan bob safle dau aelod o staff ychwanegol. Bydd un o'r rhain yn Swyddog Gorfodi a'r llall yn Swyddog Parcio Sifil. Hefyd bydd arwyddion ychwanegol a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn annog trigolion i ymddwyn mewn modd parchus.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg wedi cydnabod ymrwymiad y staff wrth helpu'r unigolion hynny sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod heriol yma. Holodd yr Aelod o'r Cabinet pa waith ydy'r Cyngor yn ei wneud i baratoi ar gyfer ail don a chynnydd yn nifer yr achosion yn RhCT. Yn ei ymateb, nododd y Cyfarwyddwr Cyfadran bod gan y Cyngor ei adnoddau hyblyg ei hun, yn ogystal â pherthynas da gyda darparwyr. O ganlyniad i hynny ac yn dilyn trafodaethau, roedd modd i'r Cyngor sicrhau feisorau i staff cyn symud i ffwrdd o ddefnyddio gogls.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau i Blant wedi canmol staff y Gwasanaethau i Blant am yr ymateb cyflym a'r ymrwymiad i blant a phobl ifainc sy'n derbyn gofal gan y Cyngor. Holodd am sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r hybiau/canolfannau a sut mae'n gweithio gydag ysgolion i nodi'r bobl ifainc sydd angen y cymorth mwyaf. Cafodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod dull cadarn wedi cael ei ddatblygu gan y Gwasanaethu i Blant ar y cyd â'r Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant i sicrhau bod plant sy'n agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu. Roedd y Cyngor yn darparu tacsis i'r rheiny sydd â gweithiwr cymdeithasol ac yn darparu cymorth i'r rheiny sydd heb weithiwr cymdeithasol pan fo athrawon yn codi pryderon am eu llesiant. Yn ogystal â hynny, mae tua 3000 o ddysgwyr wedi cael eu nodi'n ddysgwyr sydd heb fynediad i gyfleusterau digidol. Roedd y dysgwyr yma'n derbyn cyfarpar TG addas er mwyn cael mynediad i'r cyfleoedd dysgu ar-lein.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cryfach, Lles a Gwasanaethau Diwylliannol wedi estyn diolch i staff y Gwasanaethau Cymuned, ynghyd â'r nifer fawr o wirfoddolwyr am eu cymorth wrth helpu'r rheiny sydd fwyaf agored i niwed yn RhCT. Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet am ragor o wybodaeth mewn perthynas ag ailagor llyfrgelloedd y Cyngor a'r cynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â'r rhaglen tracio ac olrhain. Cafodd yr Aelod o'r Cabinet wybod bod cynllun adfer gwasanaeth y llyfrgelloedd yn cynnwys buddsoddiad mewn dyfeisiau hunan-wasanaeth ynghyd â chynigion mewn perthynas â gwasanaethau clicio a chasglu ac ehangu'r gwasanaeth Llyfrgell Gartref er mwyn cynnal diogelwch y trigolion. O ran y Cynllun Olrhain Cysylltiadau, rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod taw diwedd mis Mai yw'r bwriad ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith. Yr her ar gyfer yr wythnos i ddod byddai hyfforddi'r staff sydd wedi'u hadleoli gan ddefnyddio'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol yn dymuno cofnodi ei ddiolch i staff y garfan TG o ran darparu offer a hyfforddiant i dros 3000 o staff i sicrhau bod modd gweithio gartref yn ystod y pandemig. Holodd yr Aelod o'r Cabinet a oedd hyn yn gyfle i'r Cyngor weithredu mewn modd mwy digidol yn y dyfodol. Cafodd ei nodi y byddai'r newid cadarnhaol yma'n cael ei gynnwys yng Nghynllun Digidol y Cyngor.

Rhoddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau

Cynhwysiant glod i'r staff am eu gwaith cyflym wrth sefydlu'r hybiau, yn ogystal â'r taliadau Prydau Ysgol am Ddim ychwanegol ac ail-gomisiynu cyfarpar TG ar gyfer disgyblion sydd heb fynediad i'r cyfarpar digidol angenrheidiol. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at ddatganiad diweddar Llywodraeth Cymru gan holi a oes cynlluniau ar waith ar gyfer ailagor ysgolion yn raddol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod i'r Aelod y byddai unrhyw gynlluniau ar gyfer ailagor ysgolion yn raddol yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae dau grŵp adfer wedi cael eu sefydlu i baratoi'r dull lleol er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r plant. Byddai'r dull yma'n cael ei ddiweddaru yn unol â'r cynllun adfer ehangach.

Roedd yr Arweinydd yn dymuno nodi ei ddiolch i swyddogion, a staff y rheng flaen yn benodol am eu gwaith parhaus yn ystod llifogydd mis Chwefror a'r sefyllfa mewn perthynas â COVID-19. Siaradodd yr Arweinydd am gyflwyno grantiau a rhoddodd wybod i'r Cabinet fod RhCT wedi cael ei ganmol gan Ffederasiwn Busnesau Bach am ei ymateb cyflym. Cafodd ei nodi hefyd bod Sefydliad Bevan wedi canmol y Cyngor am ymateb cyflym y Cyngor mewn perthynas â darparu taliadau System Glirio Awtomataidd y Banciau (‘BACS’) wythnosol i'r rheiny sy'n gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim. Aeth yr Arweinydd ymlaen i drafod y staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol, a sut maen nhw wedi mynd tu hwnt i'r disgwyl i gefnogi trigolion sy'n agored i niwed o dan amgylchiadau ingol. Hefyd, siaradodd yn gadarnhaol am y broses gyflym o sefydlu'r Ddarpariaeth Gofal Plant Brys, Canolfannau Gofal Plant Brys a chymorth y staff addysgu wrth gefnogi gweithwyr allweddol i barhau i gyflawni'u gwaith.

O ran y sefyllfa ariannol, rhoddodd yr Arweinydd wybod bod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo swm sylweddol o arian er mwyn cefnogi Awdurdodau Lleol, ond pwysleisiodd bod y golled o ran incwm yn broblem fawr.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Swyddogion am eu gwaith mewn perthynas â'r ddarpariaeth tracio ac olrhain, gan ddweud y bydd y ddarpariaeth yn hanfodol wrth symud ymlaen. Mewn perthynas â Gwerth 'R' (y gyfradd heintio), awgrymwyd bod modd i werth R fod yn agos i 1 yn RhCT ac o ganlyniad i hynny, siaradodd yr Arweinydd o blaid y dull ofalus sy'n cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â llacio'r cyfyngiadau symud.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman a M. Adams ar yr eitem yma.

**PENDERFYNODD** y Cabinet:

1. Nodi'r camau gweithredu y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd yn hyn wrth ymateb i bandemig Covid 19;

2. Gofyn bod adroddiad sy'n amcangyfrif yr effaith ariannol bosibl o ran ymateb y Cyngor i'r pandemig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod y cyfarfod nesaf; a

3. Gofyn bod adroddiadau pellach sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ailagor gwasanaethau allweddol a mannau cyhoeddus megis canol trefi a hybiau trafnidiaeth yn cael eu cyflwyno yn ystod cyfarfodydd y Cabinet yn y dyfodol.

**124 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am y newid i Gynllun Dirprwyo'r Arweinydd, a **PHENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd; a

2. Nodi bod hawl gan Arweinydd y Cyngor i newid y Cynllun Dirprwyo mewn perthynas â swyddogaethau gweithredol unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn; a bod diweddariad o adran 3A yn cael ei gyflwyno i Aelodau yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**